| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **18 Gorffennaf 2013** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Oedolion a Phlant / Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes** |
| **Awdur yr Adroddiad :** | **Rheolwr Gwasanaeth: Busnes a Gofalwyr** |
| **Teitl:** | **Gofal Cartref, Posibilrwydd Cydweithio** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth i Aelodau Etholedig ynglŷn â'r posibilrwydd o gydweithio i ddarparu gofal cartref, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofynnodd Aelodau am adroddiad i ystyried y posibilrwydd o gydweithio i ddarparu gofal cartref, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r galw a darpariaeth gofal cartref Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir bod Aelodau yn ystyried yr adroddiad ac yn cefnogi'r gwaith parhaus i ganfod ffyrdd amgen o ddiwallu'r galw am ofal cartref mewn ardaloedd gwledig.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1 Mae hi'n anoddach fyth canfod gofal cartref a gall comisiynu gofal o'r fath mewn ardaloedd gwledig fod yn gostus dros ben, yn arbennig yn ne'r Sir. Awgrymwyd y gellir mynd i'r afael â'r broblem drwy gydweithio ag Awdurdodau cyfagos. Fel arall, awgrymwyd y gellir tendro contractau bloc.

4.2 Mae data wastad wedi awgrymu na fyddai'r dewisiadau uchod yn datrys y broblem ond mae'r wybodaeth bellach wedi ei mapio ac yn haws ei deall. Mae'r mapiau yn Atodiad 1 a 2 yn dangos bod y galw mewn rhai ardaloedd mor isel na fyddai creu contractau bloc yn rhesymol. Mae'r mapiau hefyd yn dangos bod y galw am ofal cartref yn isel iawn ger ffiniau'r Sir.

4.3 Rydym ni wedi ymgynghori ag Awdurdodau cyfagos ynglŷn ag ardaloedd lle mae'r galw yn isel ac ardaloedd lle mae'r ddarpariaeth yn isel. Mae Gwynedd wedi llunio map (Atodiad 3) sy'n dangos canlyniadau tebyg. Nid yw Conwy wedi mapio eu darpariaeth ond mae cymhariaeth flaenorol wedi dangos nad yw'r un meysydd yn peri anawsterau. Mae Sir y Fflint yn defnyddio map ac

rydym ni yn y broses o dderbyn copi. Ar hyn o bryd nid oes ardaloedd lle mae'r galw yn debyg. Mae Wrecsam hefyd wedi gofyn p'un ai ydyn nhw'n defnyddio system fapio er mwyn cymharu.

4.4 Lle ceir anawsterau wrth ganfod pecyn gofal priodol, mae Brocer Gofal yn cysylltu â darparwyr Awdurdodau cyfagos. Fodd bynnag, oherwydd y pellter, prin yw'r adegau lle mae'r darparwyr hyn yn gallu cynorthwyo. Mae'r mapiau yn dangos bod y galw mwyaf yng nghanol y sir ac felly ymhellach i ffwrdd o Awdurdodau eraill.

4.5 Mae gwaith wedi ei wneud yn lleol ac yn rhanbarthol i gymharu costau gofal cartref ac i ystyried model pennu cost rhanbarthol. Mae datganiadau Sefyllfa'r Farchnad hefyd yn cael eu cynhyrchu i ddangos galw a chyfeiriad pob Awdurdod Lleol. Bwriad hyn oll yw darparu gwybodaeth a fydd yn sail i gynlluniau busnes ar gyfer darparwyr ac annog datblygu o fewn ardaloedd penodol. Fodd bynnag, mae galw isel mewn rhai ardaloedd gwledig yn golygu y byddai hyfywedd busnesau yn yr ardaloedd hynny yn amheus.

4.6 Nid yw cydweithio ag Awdurdodau eraill yn ateb addas ar hyn o bryd – ond bydd gwybodaeth ranbarthol ar sefyllfa'r farchnad yn cael ei diweddaru'n rheolaidd a gall y sefyllfa newid. Yn y cyfamser, mae angen canfod atebion amgen.

4.7 Gall Taliadau Uniongyrchol i ariannu Cymorthyddion Personol fod yn wasanaeth addas i rai pobl. Fodd bynnag, mae hi'n anodd canfod Cymorthyddion Personol yn yr ardaloedd hynny. Cynigir gweithio gyda Mudiad Rowan i hysbysu cyfleodd ac i annog pobl i ymgeisio am y math yma o waith.

4.8 Ateb posib arall yw sefydlu Menter Gymdeithasol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i fentrau cymdeithasol fod yn fusnesau hyfyw. Mae'r mapiau'n dangos pa mor isel yw'r galw mewn rhai ardaloedd ac, o ystyried hynny, byddai'n rhaid i Fenter Gymdeithasol gynnig gweithgareddau neu wasanaethau nad ydyn nhw ar hyn o bryd yn cael eu hariannu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddai hefyd angen cydweithio â Gwasanaethau eraill yr Awdurdod a gweithio gyda mudiadau perthnasol.

4.9 Yn y cyfamser, mae'n briodol nodi, er yr awgrymiadau i'r gwrthwyneb, bod darpariaeth gofal cartref ar gael, hyd yn oed mewn ardaloedd gwledig. Mae oedi o ran trosglwyddo gofal yn isel iawn yn Sir Ddinbych ac mae canfod gofal cartref yn gyflym - yn aml iawn dim ond dau neu dri diwrnod sydd yna rhwng ceisio am ofal cartref a'i ganfod.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae darpariaeth gofal cartref yn cefnogi'r Flaenoriaeth Gorfforaethol i sicrhau bod pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol ag sy'n bosibl.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Rhagwelir y bydd datblygu darpariaeth amgen ar gyfer gofal cartref mewn ardaloedd gwledig yn niwtral o ran cost. Mae gwaith datblygu o'r fath yn cael ei wneud ar sail cynaladwyedd tymor hir yn wyneb galw sy'n cynyddu ac adnoddau sy'n lleihau.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd ynglŷn ag effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Gan nad oes newid yn y cynnig, nid oes angen ymgymryd ag Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb. Cynhelir asesiad pan gaiff newidiadau neu gynigion newydd eu hystyried.

**8. Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Fel y nodwyd uchod, nid oes ymgynghoriad wedi ei gynnal gan nad oes newid yn y cynnig. Mae trafodaethau wedi eu cynnal yn rhanbarthol i fesur ac i ddangos y galw.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd angen asesu manylion a goblygiadau cost unrhyw gynnig amgen yn ofalus cyn ei weithredu.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'n bosib na fydd atebion amgen ar gael ac y bydd comisiynu pecynnau gofal priodol mewn ardaloedd gwledig yn dod yn fwyfwy anodd. Bydd datganiadau Sefyllfa'r Farchnad, Strategaethau Comisiynu a gwaith rhanbarthol yn parhau i ddarparu gwybodaeth yn hyn o beth.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Erthygl 6 o Gyfansoddiad y Cyngor

**Swyddogion Cyswllt:**
Rheolwr Gwasanaeth: Busnes a Gofalwyr Ffôn: 01824 706556